# ROGERS, RICHARD SAMUEL (1882 - 1950), gweinidog gyda'r Bedyddwyr, golygydd ac awdur

**Enw:** Richard Samuel Rogers
**Dyddiad geni:** 1882
**Dyddiad marw:** 1950
**Rhiant:** Elizabeth Rogers
**Rhiant:** John Rogers
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** gweinidog gyda'r Bedyddwyr, golygydd ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Richard Bryn Williams

Ganwyd 12 Awst 1882 yn y Pwll, ger Llanelli, mab John ac Elizabeth Rogers, ac yno y dechreuodd bregethu yn bymtheg oed pan oedd yn ddisgybl yn yr ysgol sir. Enillodd wobr Dan Isaac Davies a graddiodd gydag anrhydedd mewn Cymraeg yng ngholeg y Brifysgol, Caerdydd. Enillodd gadair ei goleg a chadeiriau eraill, ond cefnodd yn fuan ar farddoni, a throes at ddiwinyddiaeth.

Ordeiniwyd ef yn Soar, Pontlotyn, yn 1906; aeth yn weinidog Rhos, Aberpennar, yn 1908, ac oddi yno yn 1915 i Gapel Gomer, Abertawe, lle'r arhosodd nes ymddeol yn 1948.

Cyhoeddodd ei lyfr *Y Deyrnas a'r Ail Ddyfodiad* yn 1914, ac ugain mlynedd yn ddiweddarach rhoes Prifysgol Cymru y radd M.A. iddo am draethawd ar *Athrawiaeth y Diwedd*, a chyhoeddwyd ei lyfr ar yr un testun y flwyddyn honno. Cyhoeddwyd ei esboniad *Datguddiad Ioan* yn 1944, a chyfrol o'i bregethau graenus, *A'r Drws yn Gaead*, yn 1948. Ysgrifennodd lawer i gyfnodolion, a chyfrannodd i'r *Geiriadur Beiblaidd*. Bu ei gyfrolau, *Llyfr Gloywi Cymraeg* (1920) a *Camre'r Gymraeg* (1926) yn boblogaidd a buddiol.

Bu'n aelod o Gyngor yr Eisteddfod Genedlaethol, Gorsedd y Beirdd, pwyllgor crefydd y B.B.C., a phwyllgor Llyfrgell Gyhoeddus Abertawe. Am gyfnod bu'n brifathro Ysgol Baratoi Ilston, ac yn Llywydd Undeb Bedyddwyr Cymru a Mynwy am 1946-47. Golygodd yr emynau i'r *Llawlyfr Moliant Newydd*, ac ef oedd golygydd *Seren Cymru* o 1936 hyd ei farwolaeth 21 Chwefror 1950.

## Awdur

**Y Parchedig Richard Bryn Williams**, (1902 - 1981)

## Ffynonellau


*Dyddiadur a Llawlyfr Undeb Bedyddwyr Cymru* a Mynwy, 1951

*Seren Cymru*, Mawrth 1950


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20821209


**Dyddiad cyhoeddi:** 1970



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu